Cefndir yr ymgynghoriad

Mae'r ymddiriedolwr, Cynllun Blwydd-dâl y Prifysgolion Cyfyngedig, wedi penderfynu bod angen camau i dalu cost gynyddol darparu buddion i aelodau, ac i fynd i'r afael â'r diffyg cyllido yn y cynllun – dau fater a ddaeth i'r amlwg yn eu prisiad 2017

Ym mis Ionawr 2018, cynigiodd y Cyd-Bwyllgor Trafod (JNC) newidiadau i fuddion USS a fwriadwyd i ymdrin â'r materion hyn.

Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau rhwng Universities UK (UUK) ac Undeb y Prifysgolion a'r Colegau (UCU), tynnodd y JNC y cynigion yn ôl ddydd Gwener 27 Ebrill 2018 ac ni roddwyd unrhyw gynigion amgen gerbron.

Cytunodd UUK ac UCU ar wahân i sefydlu Panel Arbenigwyr ar y Cyd (JEP) i asesu prisiad 2017.

Cyflwynodd yr JEP ei asesiad o brisiad 2017 i UUK ac UCU ar 13 Medi. Yn seiliedig ar asesiad JEP, gall y JNC gynnig newidiadau i fudd-daliadau a / neu gyfraniadau a fyddai, yn amodol ar ddiwydrwydd dyladwy gan yr ymddiriedolwr, yn destun ymgynghori pellach gan gyflogwyr.

Yn y cyfamser, rhaid i'r ymddiriedolwr ddangos i'r Rheoleiddiwr Pensiynau:

- fod gan USS ddigon o arian i dalu'r pensiynau a addawyd;
- fod ganddo gynllun adennill diffyg i wneud hyn; a hefyd
- ei fod yn parhau i wneud cynnydd tuag at gwblhau'r prisiad.

Rhaid iddo hefyd gymryd camau i fynd i'r afael â sefyllfa gyllido'r cynllun a fydd yn cynnwys gweithredu'r rheolau rhannu costau. Golyga hyn y byddai unrhyw newidiadau a gytunwyd ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad hwn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2019, cyn y gellid gweithredu unrhyw newidiadau sy'n codi o ganlyniad i waith yr JEP.

Amlinellir y newidiadau arfaethedig ar y wefan hon. Cefnogir y wybodaeth gan fideos, cwestiynau ac atebion ac adnoddau eraill, fydd yn help i chi ddeall yr effeithiau y gall y newidiadau arfaethedig eu cael ar eich cyfraniadau a'ch buddion pensiwn yn y dyfodol.

Fe welwch hefyd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, felly wedi i chi ystyried yr holl adnoddau, gallwch gyflwyno eich sylwadau am y newidiadau arfaethedig i USS.

Os nad ydych yn siŵr a fydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio arnoch chi ai peidio, mynnwch air â'r unigolyn yn eich gweithle a ysgrifennodd atoch am yr ymgynghoriad.

Mae gan eich cyflogwr gyfrifoldeb cyfreithiol i ymgynghori â holl gynrychiolwyr cydnabyddedig y gweithwyr. Mae hefyd yn ymgynghori'n uniongyrchol â phob gweithiwr y gall y newidiadau arfaethedig effeithio arnynt.

Mae fersiynau Braille a phrint bras o gynnwys y wefan hon ar gael o wneud cais i'r unigolyn yn eich gweithle a ysgrifennodd atoch gyda manylion am yr ymgynghoriad.

1. **Y prisiad**

Mae prisiad USS broses a fynnir dan y gyfraith sy'n cael ei gynnal o leiaf bob tair blynedd i bennu sefyllfa gyllido'r cynllun.

Adolygiad ydyw o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun, ac y mae'n amcangyfrif:

- a all asedau'r cynllun gyllido'r buddion a gronnwyd eisoes gan yr aelodau yn USS; a
- faint o arian y mae angen i gyflogwyr ac aelodau ei dalu i mewn i'r cynllun er mwyn parhau i ddarparu'r lefel bresennol o fuddion diffiniedig sy'n cael eu cronni yn y dyfodol.

Mae rheidrwydd ar yr ymddiriedolwr i gwrdd â therfynau amser statudol o ran cwblhau'r prisiad: yr oedd y gyfraith yn mynnu bod prisiad 2017 wedi ei gwblhau erbyn 30 Mehefin 2018.

Fodd bynnag, oherwydd bod cynigion blaenorol y JNC yn cael eu tynnu'n ôl, trafodaethau parhaus rhanddeiliaid a chreu'r Panel Arbenigol ar y Cyd, methodd yr ymddiriedolwr i'r terfyn amser statudol.

O ganlyniad, dywedodd y Rheoleiddiwr Pensiynau yn glir fod yn rhaid i'r ymddiriedolwr gymryd camau pendant i gwblhau'r prisiad, a gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r cynllun, cyn gynted ag y bo modd.

Felly, ni all yr ymddiriedolwr fodloni ei rwymedigaethau cyfreithiol os yw'n aros i'r JNC gynnig unrhyw newidiadau i gyfraniadau a / neu fudd-daliadau USS yn seiliedig ar adolygiad y Panel Arbenigol ar y Cyd. Yn lle hynny, bydd yn cwblhau prisiad 2017 o dan y darpariaethau rhannu costau rhagosodedig ochr yn ochr â'r JEP ac unrhyw brosesau JNC dilynol.

2. **Sefyllfa gyllido'r cynllun**

Adeiladwr Incwm Ymddeol USS trwy gyfraniadau gan aelodau a chyflogwyr. Mae'r cyfraniadau hyn yn cael eu buddsoddi gan yr ymddiriedolwr, i ddarparu eich buddion ymddeol.

Mae lefel y cyfraniadau sydd eu hangen i ofalu bod gan y cynllun ddigon o arian i ddarparu eich buddion yn dibynnu ar dri phrif ffactor:

- Lefel a math y buddion a gynigir;
- demograffeg allweddol yr aelodau (megis disgwyliad einioes a dibynyddion); a'r
- elw o fuddsoddiad y gellir yn rhesymol ddisgwyl i asedau'r cynllun eu sicrhau.

Edrychodd y prisiad diweddaraf ar sefyllfa'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2017. Canfu, er bod yr elw ar fuddsoddiadau ers y prisiad blaenorol yn 2014 wedi bod yn uwch na'r hyn a ragfynegwyd, fod y rhagolygon am elw yn y dyfodol wedi gostwng yn sylweddol.

Yn 2014, rhagwelodd yr ymddiriedolwr y byddai buddsoddiadau'r cynllun yn rhoi elw o ryw 5% y flwyddyn, a chydag asedau gwerth £41.6 biliwn, fod USS wedi ei gyllido 89% (diffyg cyllido o £5.3 biliwn). O ganlyniad, cododd cyfraniadau'r cyflogwyr a'r aelodau a newidiodd y buddion ar 1 Ebrill 2016.

Rhwng prisiadau 2014 a 2017, cynigiodd buddsoddiadau sicr, megis bondiau llywodraeth y DU, lai o incwm at y dyfodol, gyda'r elw yn gostwng o 1.6% y flwyddyn o lefelau oedd eisoes yn is na chwyddiant.

O ganlyniad, chwiliodd buddsoddwyr mewn mannau eraill am elw sicr, a golygodd hyn gynnydd yng nghost buddsoddi ym mhob dosbarth o asedau.

Daeth y ffactorau hyn ynghyd i olygu bod yr ymddiriedolwr yn disgwyl elw is yn y dyfodol, oedd yn golygu diffyg cyllido o £7.5 biliwn (89% wedi'i gyllido, gydag asedau o £60 biliwn) fel ar 31 Mawrth 2017.

3. **Cost cronni buddion USS**

Y rhagolygon buddsoddi yw'r mater sylfaenol wrth ystyried cost cronni buddion diffiniedig yn USS.

Mae disgwyliadau buddsoddi is wedi effeithio ar USS oherwydd y bydd y cyfraniadau a delir ar hyn o bryd gan aelodau a chyflogwyr – a'r cyfraniadau y disgwylir eu talu gan aelodau'r cynllun yn y dyfodol:

- yn prynu llai o asedau nag y gallent yn y gorffennol; a
- bod disgwyl i'r asedau hynny gynhyrchu elw is yn y dyfodol am fod eu prisiau prynu yn uwch.

Effaith hyn, yn ôl prisiad 2017 USS, yw cynnydd yng nghost cyllido buddion diffiniedig o £900 miliwn y flwyddyn.

4. **Y Cyd-Bwyllgor Trafod a'i rôl**

Dan reolau USS, y Cyd-Bwyllgor Trafod (JNC) yw'r corff sy'n gyfrifol am benderfynu sut yr ymdrinnir â gofynion am gyfraniadau uwch.

Fe'i ffurfir o bump o gynrychiolwyr y cyflogwyr (a enwebir gan Universities UK), pump o gynrychiolwyr yr aelodau (a enwebir gan Undeb y Prifysgolion a'r Colegau) a chadeirydd annibynnol.

Am fod amodau economaidd, dulliau o fyw a nifer o ffactorau eraill yn newid o hyd, mae'r gyfraith yn mynnu bod yr ymddiriedolwr yn asesu'n rheolaidd a oes disgwyl i'r cynllun fod â digon o arian i ddarparu buddion yr aelodau: dyma'r prisiad.

Gyda phob prisiad, bydd yr ymddiriedolwr yn pennu'r cyfraniadau y byddai angen i aelodau a chyflogwyr eu talu i gyllido'r cynllun ar sail y buddion sy'n cael eu cynnig ar yr adeg honno.

Mae wedyn yn rhoi'r wybodaeth hon i'r JNC, sy'n penderfynu sut y dylid rhannu'r cyfraniadau sydd eu hangen rhwng y cyflogwyr a'r aelodau ac a ddylid gwneud unrhyw newidiadau ai peidio i'r buddion ymddeol a ddarperir gan y cynllun am wasanaeth yn y dyfodol.

Ym mis Ionawr 2018, mewn ymateb i ganlyniadau prisiad yr actiwari am 2017, cynigiodd y JNC newidiadau i fuddion USS.

Fodd bynnag, yn dilyn trafodaeth rhwng UUK ac UCU, tynnodd y JNC y cynigion hynny ar ddydd Gwener 27 Ebrill 2018. Mae bellach yn adolygu'r asesiad o brisiad 2017 a gynhaliwyd gan y Panel Arbenigol ar y Cyd, cyn iddo gynnig unrhyw newidiadau budd-dal yn y dyfodol.

5. **Y Panel Arbenigwyr ar y Cyd**

Sefydlodd UCU ac UUK y Panel Arbenigol ar y Cyd (JEP), i asesu prisiad USS 2017.

Gyda chadeirydd annibynnol, mae'r JEP yn cynnwys arbenigwyr actiwaraidd ac academaidd, a enwebir gan UUK ac UCU. Cefnogodd yr ymddiriedolwr USS y broses JEP, a chyfrannodd yn llawn ag asesiad yr JEP, a adroddwyd i UUK ac UCU ar 13 Medi.

Yn seiliedig ar asesiad JEP, gall y JNC gynnig newidiadau i fudd-daliadau a / neu gyfraniadau a fyddai, yn amodol ar ddiwydrwydd dyladwy gan yr ymddiriedolwr, yn destun ymgynghori pellach gan gyflogwyr. Fodd bynnag, ni ellid gweithredu unrhyw newidiadau cynllun a gynigiwyd gan y JNC o ganlyniad i asesiad y JEP tan ar ôl 1 Ebrill 2019.

6. **Y rheolau rhannu cost**

Cafodd y broses rhannu cost (rheolau USS 76.4-76.8) ei chyflwyno trwy'r JNC yn 2011 (a'i diwygio wedi hynny yn 2014) ar gais UUK a'r UCU (trwy'r JNC). Proses ddiofyn ydyw, wedi ei gosod allan yn rheolau'r cynllun sydd yn gymwys lle nodwyd newid yng nghostau'r cynllun ac na ddaeth y JNC i benderfyniad ar newidiadau i fuddion a/neu gyfraniadau i ymdrin â'r newid hwnnw, fel sydd wedi digwydd yn awr.

Dengys USS fod cost cyllido buddion wedi cynyddu o £900 miliwn y flwyddyn, a bod cwrdd â'r gost hon, gan gynnwys ymdrin â'r £7.5 biliwn o ddiffyg, yn gofyn am gyfraniad cyfun gan y cyflogwyr a'r gweithwyr o 37.4%.

Mae'r gyfradd gyfraniadau sydd ei hangen o 37.4% 11.4% yn uwch na chyfanswm y cyfraniadau a gynilir i'r cynllun ar hyn o bryd gan yr aelodau (8%) a'r cyflogwyr (18%).

Cynigir, o ganlyniad i gost gynyddol cyllido buddion ac er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg, y bydd y rheolau rhannu cost yn dod i rym o 1 Ebrill 2019 ymlaen, gyda chodiadau graddol yn y cyfraniadau, wedi'u rhannu 35:65 rhwng aelodau a chyflogwyr.

Mae'r rheolau rhannu cost yn mynnu bod yr ymddiriedolwr yn ystyried i ba raddau y dylid gostwng cyfraniad cyfatebol y cyflogwr o 1% i Adeiladwr Buddsoddi USS er mwyn ymdopi â'r codiadau angenrheidiol i gyfanswm y gyfradd gyfraniadau. Mae'r codiad angenrheidiol i'r gyfradd gyfraniadau yn golygu y byddai cyfraniad cyfatebol y cyflogwr o 1% yn cael ei dynnu ymaith yn llwyr (o 1 Ebrill 2019). Byddai hyn yn gostwng y gyfradd gyfraniadau o 37.4% i 36.6%.

Cynigir felly y byddai cyfraniadau arferol yr aelodau yn codi o 8% i 8.8% o 1 Ebrill 2019 ymlaen, ac y byddai cyfraniad y cyflogwr yn codi o 18% i 19.5%.

Dan y cynnig, byddai codiadau pellach yng nghyfraniadau'r aelodau ar 1 Hydref 2019 (i 10.4%) ac 1 Ebrill 2020 (i 11.7%). Ar yr un pryd, bydd cyfraniadau'r cyflogwr yn codi i 22.5% a 24.9% yn y drefn honno. Bydd y codiadau hyn yn sicrhau, erbyn 1 Ebrill 2020, y bydd cyfanswm y cyfraniadau a dderbynnir gan yr ymddiriedolwr yn ddigon i dalu costau buddion y dyfodol a chyfraniadau adennill diffyg.

Gall y JNC gynnig newidiadau i'r cynllun yn y dyfodol ar ôl i UUK ac UCU adolygu'r canfyddiadau yn yr adroddiad gan y Cydbwyllgor Arbenigol, a adroddwyd ar 13 Medi.

Yn amodol ar ymgynghoriad pellach a diwydrwydd dyladwy gan yr ymddiriedolwr, a gweithrediad dilynol, byddai'r newidiadau hyn yn disodli'r darpariaethau rhannu costau o'r dyddiad y cytunwyd arno fel rhan o'r broses honno. Golyga hyn y byddai unrhyw newidiadau a gytunwyd ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad hwn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2019, cyn y gellid gweithredu unrhyw newidiadau sy'n codi o ganlyniad i waith yr JEP. Bydd yr ymddiriedolwr yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid i weithredu unrhyw newidiadau pellach cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

7. **Dwy adran USS**

Adeiladwr Incwm Ymddeol USS
Pan fyddwch yn dod yn aelod o USS, yr ydych yn awtomatig yn ymuno ag Adeiladwr Incwm Ymddeol USS. Adran buddion diffiniedig USS yw hon, sydd yn rhoi i chi lefel benodedig o incwm ymddeol, ar sail eich cyflog yn ystod pob blwyddyn o'ch aelodaeth o'r cynllun ac ers faint y buoch yn aelod.

Bob blwyddyn, rydych chi'n ennill 1/75ain o'ch cyflog (hyd at y trothwy cyflog*), ac ar ddiwedd pob blwyddyn, caiff eich buddion eu cyfrifo a'u 'bancio'. Maent wedyn yn cael eu cynyddu yn fras yn unol â chwyddiant, bob blwyddyn**.

Pan fyddwch yn ymddeol, byddwch hefyd yn derbyn swm crynswth di-dreth sydd deirgwaith lefel eich pensiwn Adeiladwr Incwm Ymddeol USS.

*Y trothwy cyflog yw £57,216.50 ar gyfer 2018/19. Mae'n cynyddu'n flynyddol, yn unol â chwyddiant yn fras.
**Mae buddion a gronnir gennych yn Adeiladwr Incwm Ymddeol USS yn destun codiadau mynegai-gysylltiedig (Mynegai Prisiau Defnyddwyr). Mae'r 5% cyntaf o unrhyw gynnydd mewn chwyddiant yn cael ei gyfatebu. Uwchlaw hynny, mae'r cynnydd yn 0.5% am bob cynnydd o 1% mewn chwyddiant hyd at uchafswm codiad o 15%.

Adeiladwr Buddsoddi USS
Os yw eich cyflog yn uwch na'r trothwy cyflog, os gwnaethoch gyfraniadau ychwanegol, gan gynnwys y cyfatebiad, neu os gwnaethoch drosglwyddo i mewn o drefniant pensiwn arall ers Hydref 2016, byddwch yn cynilo yn Adeiladwr Buddsoddi USS. Ffordd hyblyg yw hon o gynilo at y dyfodol, gan ganiatáu i chi fuddsoddi mewn un neu fwy o gronfeydd a gynigir gan yr ymddiriedolwr. Dyma adran cyfraniad diffiniedig y cynllun.

Gallwch gronni cynilion yn seiliedig ar faint yr ydych chi a'ch cyflogwr yn ei gyfrannu ac ar yr elw ar fuddsoddiadau a gynhyrchir gan y cyfraniadau hynny, namyn unrhyw gostau buddsoddi. Mae hefyd yn rhoi'r dewis i chi i wneud cyfraniadau ychwanegol i gynyddu eich cynilion.

Medrwch ddefnyddio eich cynilion mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys fel swm crynswth di-dreth, buddsoddi mewn cynnyrch tynnu i lawr neu brynu blwydd-dâl, fydd yn darparu incwm gwarantedig am oes.

8. **Dyddiadau allweddol**

3 Medi 2018
Dyddiad cychwyn yr ymgynghoriad.

2 Tachwedd 2018
Dyddiad gorffen yr ymgynghoriad (rhaid derbyn ymatebion erbyn 5:00pm).

Tachwedd 2018
Caiff eich ymatebion eu hystyried a phenderfynir ar y newidiadau terfynol.

O Ragfyr 2018 ymlaen
Bydd y safbwynt terfynol y penderfynwyd arno yn cael ei gyfleu i chi.

1 Ebrill 2019
Dyddiad gweithredu unrhyw newidiadau.

Beth i'w wneud nesaf

Gallwch roi eich barn am y newidiadau arfaethedig i'ch cyflogwr a'r ymddiriedolwr trwy fynd at y dudalen ymateb.

9. **Newidiadau arfaethedig i USS**

Cynnydd mewn cyfraniadau
Dan y rheolau rhannu cost (sy'n ymgorffori tynnu ymaith gyfatebiad y cyflogwr), byddai cyfraniadau arferol yr aelodau yn codi o'r gyfradd bresennol o 8% a byddai cyfraniadau'r cyflogwyr yn codi o 18%.

Byddai'r cynnydd yng nghyfanswm y cyfraniadau yn cael ei rannu 35:65 rhwng yr aelodau a'r cyflogwyr yn y drefn honno, a bwriada'r ymddiriedolwr gyflwyno'r codiadau mewn cyfraniadau yn raddol o 1 Ebrill 2019 tan 1 Ebrill 2020.

Mae codiadau mewn cyfraniadau yn gymwys i gyfanswm y cyflog, h.y., cyflog uwchlaw ac islaw'r trothwy cyflog (£57,216.50 ar hyn o bryd).



Dan y cynigion, ni fydd unrhyw godiadau arfaethedig mewn cyfraniadau yn effeithio ar aelodau gydag optio allan Uwch. Byddai cyfraniadau gan aelodau gyda Chap Cyflog Gwirfoddol yn cynyddu yn unol â'r cynigion hyd at lefel y cap, gyda'u cyfraniadau dewisol uwchlaw'r cap i gadw buddion marwolaeth a salwch yn cael eu gwneud yn ychwanegol.

SUT Y BYDDAI CYFRANIADAU RHANNU COST YN CYLLIDO BUDDION USS:

BETH A GYLLIDIR GAN GYFRANIADAU'R AELODAU



MAE CYFRANIAD 8% PRESENNOL YR AELODAU YN CYLLIDO:

8% o'r cyflog hyd at y trothwy cyflog (gan gynnwys 0.35% tuag at fuddion marwolaeth mewn gwasanaeth a salwch) i Adeiladwr Incwm Ymddeol USS.

8% o'r cyflog uwchlaw'r trothwy cyflog wedi'i gynilo yn Adeiladwr Buddsoddi USS.

O EBRILL 2019 YMLAEN

DAN Y RHEOLAU RHANNU COST:

NEWID

Ar enillion hyd at y trothwy cyflog, bydd cyfraniadau i Adeiladwr Incwm Ymddeol USS yn cynyddu'n raddol, fel yr amlygir yn y siart uchod*.

*Bydd y cyfraniad tuag at farwolaeth mewn gwasanaeth a salwch yn aros ar 0.35%

DIM NEWID

Ar enillion uwchlaw'r trothwy cyflog, bydd cyfraniadau i Adeiladwr Buddsoddi USS yn aros ar 8%.

NEWID

Ar enillion uwchlaw'r trothwy cyflog, gwneir cyfraniad ychwanegol i Adeiladwr Incwm Buddsoddi USS, gan gynyddu'n raddol, fel yr amlygir yn y siart uchod.



Mae'r rheolau rhannu cost yn pennu yn unig ddosraniad cyfanswm y cynnydd angenrheidiol mewn cyfraniadau, i gyfraddau cyfraniadau'r aelodau a'r cyflogwyr yn y cyfrannau a nodwyd. Nid oes cyfarwyddyd penodol yng nghyswllt elfennau unigol sydd yn ffurfio'r cyfraniadau megis cost buddion neu ddiffyg yn y dyfodol.

Bydd y broses rhannu costau yn rhedeg ar wahân i, ond ochr yn ochr â, canlyniad asesiad y JEP a bydd yn effeithiol hyd nes y bydd unrhyw benderfyniad JNC dilynol ar fudd-daliadau a / neu newidiadau cyfraniad yn cael ei weithredu.

Gwneud i ffwrdd â chyfatebiad y cyflogwr

Fel rhan o weithredu'r rheolau rhannu cost, y cynnig yw gwneud i ffwrdd â chyfatebiad y cyflogwr o 1 Ebrill 2019 ymlaen.
Byddai hyn yn gostwng uchafswm y cyfraniad cyfun sydd ei angen gan aelodau a chyflogwyr o 37.4% i 36.6% (mae'r gostyngiad fymryn yn is na 1% am nad yw pob aelod o USS ar hyn o bryd yn cymryd y cyfatebiad).

Petai'n cael ei dynnu ymaith, byddai unrhyw aelodau sydd ar hyn o bryd yn cymryd y cyfatebiad yn parhau i wneud eu cyfraniadau ychwanegol o 1% i Adeiladwr Buddsoddi USS, ond ni fyddai'r cyflogwyr bellach yn cyfatebu'r cyfraniadau hynny o 1 Ebrill 2019 ymlaen.

Gall unrhyw aelodau sydd am roi'r gorau i wneud y cyfraniad ychwanegol o 1% wneud hynny trwy ddefnyddio My USS.

Cyfraniadau uwchlaw'r trothwy cyflog
Bydd aelodau sy'n ennill dros y trothwy cyflog (£57,216.50 am 2018/19) yn parhau i gynilo yn Adeiladwr Buddsoddi USS.

Ar hyn o bryd, mae 20% o'r cyflog uwchlaw'r trothwy yn cael ei gynilo yn Adeiladwr Buddsoddi USS: 8% gan yr aelodau a 12% gan y cyflogwyr.

Y cynnig yw i gyfraniadau ar gyflog uwchlaw'r trothwy cyflog godi yn unol â chodiadau mewn cyfraniadau dan y rheolau rhannu cost. Dan y cynnig, byddid yn parhau i fuddsoddi 20% yng nghynilion Adeiladwr Buddsoddi USS yr aelodau.

Byddai'r arian dros ben yn mynd tuag at gyllido'r buddion a ddarperir gan adran Adeiladwr Incwm Ymddeol USS y cynllun.

Dan y cynnig, wrth i godiadau pellach mewn cyfraniadau gael eu cyflwyno'n raddol, byddai'r cyfraniadau uwchlaw'r trothwy cyflog hefyd yn codi. Fodd bynnag, byddai'r cyfraniadau a gynilwyd yn Adeiladwr Buddsoddi USS yn aros ar 20% cyfun.

Dim newidiadau eraill i fuddion

Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig eraill i fuddion yr aelodau fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, gyda chyfraniadau'r aelodau a chyfraniadau'r cyflogwyr yn parhau i gronni ar yr un gyfradd o 1/75ain yn Adeiladwr Incwm Ymddeol USS (hyd at y trothwy cyflog), ac yn parhau i gael eu buddsoddi yn Adeiladwr Buddsoddi USS (lle mae aelodau yn ennill dros y trothwy cyflog neu yn gwneud cyfraniadau ychwanegol).

- Bydd buddion diffiniedig aelodau gweithredol yn parhau i gael eu cynyddu, yn fras yn unol â chwyddiant.
- Cyhyd ag y byddant yn aelodau gweithredol o'r cynllun, bydd aelodau yn parhau i gael yr un buddion marwolaeth mewn gwasanaeth a salwch.
- Bydd gan yr aelodau hawl o hyd i'r un taliadau pensiwn a swm crynswth o Adeiladwr Incwm Ymddeol USS wedi iddynt ymddeol.
- Bydd Adeiladwr Buddsoddi USS yn parhau i fod ar gael i aelodau sydd eisiau gwneud cyfraniadau ychwanegol neu drosglwyddo buddion o drefniant pensiwn arall i mewn i'r cynllun.
- Gall aelodau barhau i ddewis rheoli eu cronfeydd Adeiladwr Buddsoddi USS eu hunain neu ddewis i'r ymddiriedolwr wneud hynny ar eu rhan.

Mae unrhyw fuddion pensiwn a gronnwyd eisoes gan aelodau yn USS hyd at ddyddiad y newid yn ddiogel ac wedi eu diogelu dan y gyfraith. Llywodraethir USS gan weithred a rheolau ymddiriedolaeth ac os oes unrhyw wahaniaeth rhwng cynnwys y wefan hon a gweithred a rheolau'r ymddiriedolaeth, yr olaf fydd drechaf.